# Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



# GORLLEWIN Y BARRI AC YNYS Y BARRI

## Y Barri

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

## I ardal Gorllewin y Barri ac Ynys y Barri

**Dyma'r cynllun gweithredu cymdogaeth i ardal Gorllewin y Barri ac Ynys y Barri.**

**Mae nifer o ysgolion cynradd yn yr ardal hon, fel Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Ysgol Gynradd Romilly ac Ysgol Gynradd yr Holl Eneidiau yr Eglwys yng Nghymru.**

Mae nifer o siopau lleol ac mae'r ardal o fewn pellter cerdded i'r Stryd Fawr leol. Caiff yr ardal ei gwasanaethu'n dda gyda llwybrau bysiau ac mae gorsaf reilffordd ar Ynys y Barri.

Mae'r ardal hon o'r Barri yn gartref i sawl traeth a man agored fel Parc Gwledig Porthceri, Parc Romilly a Llyn Knap gyda chaffis.


Ceir dwy ganolfan gymunedol yn yr ardal, lle cynhelir cylchoedd chwarae preifat yn ogystal â rhai gweithgareddau ieuenctid.


Mae'r cynllun tai gwarchod sy'n perthyn i'r Cyngor, Gwenog Court, wedi'i leoli yn yr ardal hon ac mae'n gartref i breswylwyr 55+ oed. Mae ynddo ardal gymunedol sy'n hwyluso amrywiaeth o grwpiau a gweithgareddau ar gyfer y preswylwyr a'r gymuned leol.

# Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017 – Mae 3,655 o bobl yn byw yn ardal Gorllewin y Barri ac Ynys y Barri
- Mae gan yr ardal ddosbarthiad trefol/ gwledig o: Ddinas a thref ddinesig
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae 395 o eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn yr ardal. Mae 134 o dai, 151 o fflatiau, 5 o fflatiau deulawr, 67 o fflatiau i bobl hŷn a 38 o fyngalos i bobl hŷn. Mae 47 eiddo lesddaliadol a 29 garej. Mae'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd rhwng 1946 a 1964.


Allot Gdns
CLIVE ROAD
Ygsol
STREET
PW
AMHERST ST
CRESCENT
31m
PLYMOUTH ROAD
Maslin Park
PO
Allot Gdns
Tunnel
MARQUIS
PW
BREAKSEA DRIVE
Sta
STATION APPROACH
Amusement Park
FRIARS ROAD


Path
BARRI/
BARRY
Cwm Talwg
College

# Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?





## Beth yw ei nodau?

**Mae'r Cynllun Cymdogaeth yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystadau. Mae'r cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throsedd a diogelwch.**

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystad, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

## Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

| | |
|---|---|
| Diogelwch cymunedol | Roedd 55% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n unol â chyfartaledd y Fro o 58%.<br>Roedd cymdogion swnllyd yn bryder i rai sy'n byw yn yr ardal gyda 31% o denantiaid yr ardal yn nodi bod hon yn broblem, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y Fro o 35%.<br>Nid oedd defnyddio cyffuriau yn cael ei ystyried yn fater blaenoriaeth yn ardal Dwyrain y Barri ac Ynys y Barri, gyda dim ond 24% o denantiaid yn gweld hyn fel pryder, sydd ychydig yn is na chyfartaledd y Fro o 26%.<br>Nododd 75% o'r tenantiaid sy'n byw yn yr ardal eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn. |
| Cyswllt â chwsmeriaid | Dywedodd 86% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlai 82% bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol<br>Roedd 71% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn (cyfartaledd y Fro 65%).<br>Mewn archwiliad cymdogaeth diweddar, nododd 100% o denantiaid eu bod yn adnabod Tîm Rheoli Cymdogaeth yr ardal. |
| Galw am gartrefi | Mae galw da am gartrefi yn yr ardal hon gyda 35 ymgeisydd ar gyfartaledd yn cynnig am eiddo pan fyddant yn cael eu hysbysebu ar gyfer eu hailosod drwy Homes 4 You.<br>"Rwyf wrth fy modd yn byw yn yr ardal, yn teimlo yn hapus a diogel yn fy nghartref." |
| Mynediad at wasanaethau | Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da at siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws da sy'n golygu y gall tenantiaid fynd i mewn i ganol tref Y Barri, neu ymweld ag archfarchnadoedd yn hawdd.<br>Mae 3 ysgol gynradd gymunedol yn yr ardal ac mae digon o leoedd ar gael i blant sy'n byw yn y dalgylch.<br>Mewn arolwg tenantiaid diweddar nododd preswylwyr sylw y byddent yn hoffi gweld mwy o wasanaethau lleol yn yr ardal.<br>"Lleoliad da ar gyfer bysiau a siopau" |

## Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

| | |
|---|---|
| Ôl-ddyledion rhent | Dywed 92% o denantiaid yr ardal fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian.<br>Mae 31% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sy'n unol â'r cyfartaledd ar draws y Fro o 31%; fodd bynnag mae cyfran uchel o denantiaid yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i helpu i dalu eu costau tai. Mae darparu rhent gwerth am arian yn flaenoriaeth allweddol i bobl sy'n byw yn yr ardal hon. |
| Atgyweirio | Yr amser aros ar gyfartaledd am atgyweiriadau oedd 8 diwrnod.<br>Roedd 85% o denantiaid yr ystad yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 85% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym.<br>Er bod tenantiaid yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio, maent wedi codi hwn yn yr arolwg diweddar fel maes y gellid ei ddatblygu ymhellach. |
| Cyflogaeth | Mae gan y gymdogaeth lefelau uchel o ddiweithdra o gymharu â chymdogaethau eraill yn Y Barri. Mae hyn yn dangos bod rhai pobl yn y gymdogaeth yn cael anhawster cael mynediad i'r farchnad swyddi ac efallai nad ydynt â chymwysterau da ar gyfer y swyddi sydd ar gael. |
| Incwm yr aelwyd | Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o'i gymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd.<br>Yn ddiweddar, dywedodd 50% o denantiaid fod ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol a sut y bydd hyn yn effeithio arnynt. |
| Trosiant eiddo | Daeth 31 eiddo yn wag y llynedd, sef tua 8% o'r stoc dai yn yr ardal. |
| Tenantiaid gweithgar | Ychydig o ymgysylltiad sydd gennym â thenantiaid sy'n byw yn yr ardal o ran fforymau tenantiaid traddodiadol.<br><br>Ar hyn o bryd, rydym yn edrych i sefydlu bwrdd preswylwyr yn yr ardal i wella hyn a sicrhau bod tenantiaid yn cael cyfle i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau yn eu cymdogaeth. |

## Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

| | |
|---|---|
| Trosedd a niwsans | Y prif droseddau yr adroddir amdanynt i'r Heddlu yn yr ardal hon yw YGG, trais a throseddau rhywiol, difrod troseddol a byrgleriaeth ond mae lefelau'r troseddau yr adroddir amdanynt yn sylweddol is na chyfartaledd y Fro.<br>Mewn arolwg tenantiaid diweddar, ni thynnodd preswylwyr sylw at unrhyw bryderon mewn perthynas â diogelwch cymunedol. |
| Iechyd a llesiant | Mae iechyd 11% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn debyg i gyfartaledd y Fro. |
| Pobl ifanc | Mae yma gyfran uwch o bobl ifanc na chyfartaledd y Fro neu Gymru gydag 20% o'r boblogaeth rhwng 0-15 oed (o'i gymharu â 19% ar draws y Fro)<br>Ychydig o ddarpariaeth a wneir ar gyfer Pobl Ifanc trwy Glybiau Ieuenctid a grwpiau cymdeithasol. |
| Addysg | Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol ymhlith y chwartel isaf o'u cymharu ag ardaloedd eraill yn y Fro, gyda sgoriau cyrhaeddiad cyfartalog yn is na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.<br>Mae cyfraddau absenoldeb disgyblion yn uwch na chyfartaledd y Fro mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. |
| Mannau agored | Mae amrywiaeth o fannau agored y gallai'r gymuned eu defnyddio.<br>Rydym yn ddigon ffodus i gael rhai mannau agored hardd yn y gymdogaeth hon, gan gynnwys Cyrchfan Ynys y Barri a Pharc Porthceri yn ogystal â nifer o ardaloedd chwarae i blant. |
| Graddfeydd yr ystad | Graddiad cyffredinol yr ystad yw 4. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ardal. Yn ddiweddar, nodwyd nifer o geir a oedd o bosib wedi eu gadael yn yr ardal, sy'n destun ymchwiliad ar hyn o bryd.<br>"Cymdogion hyfryd, stryd fendigedig" "Lle gwych i fyw" |

# Gwybodaeth leol:
## Archwilio eich ystad

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

| Barn/sylwadau preswylwyr | |
|---|---|
| Mae'r ardal gyfan yn elwa o gymunedau sefydledig a throsiant isel o eiddo. | Mae amlder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn isel ac mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo. Ardal y garejys - ymddangosiad gwael, llawer o leoedd gwag - allwn ni wneud rhywbeth yn wahanol? |
| Mae ymddangosiad yr ardal yn dda gyda llawer o fannau gwyrdd.<br><br>Mae sawl coeden yn y gymdogaeth mewn cyflwr gwael ac mae darnau o dir a ddefnyddir y gellid eo troi at well defnydd. | Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth yn bennaf oherwydd lled rhai ffyrdd a'r diffyg lle sydd ar gael. |
| Mae ymddangosiad cyffredinol eiddo yn yr ardal yn dda, gyda rhai ardaloedd fel Taith Gerdded Parkland yn lleoliad godidog | Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael. |
| Cwblhawyd y gwaith WHQS ar yr holl eiddo yn yr ardal ac maent mewn cyflwr da iawn. | |

| Barn/sylwadau preswylwyr | |
|---|---|
| Cynhaliodd y Tîm Cymdogaeth fore coffi i drafod gyda'r preswylwyr y posibilrwydd o ddatblygu grŵp preswylwyr.<br><br>Mynychodd sawl preswylydd ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan ymhellach. | Nid yw pobl yn ein hadnabod yn ddigon da/ dim cyswllt cryf.<br><br>Angen gwybod mwy am ein tenantiaid/ demograffeg. |

## Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth, gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:

- Sicrhau rhent gwerth am arian
- Sicrhau ansawdd cyffredinol y cartrefi
- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrando ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain

## Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo ddylai fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Sicrhau bod atygweiriadau a chynnal a chadw'n cael eu gwneud i safon uchel ac yn amserol
- Gwella cyfleusterau parcio yn yr ardal
- Cael mwy o wasanaethau lleol





# Camau Gweithredu

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| **Materion amgylcheddol** | | |
| Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth. | Gwella ymddangosiad y gymdogaeth | O fewn 6 mis |
| Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i ymdrin â phroblemau parhaus gyda sbwriel. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol.<br><br>Lleihau'r achosion o daflu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin. | O fewn 6 mis |
| Targedu gerddi sydd wedi gordyfu mewn cartrefi tenantiaid, gan gynnwys gerddi cymunedol. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Adolygu ardaloedd sydd wedi profi cynnydd sylweddol mewn parcio fel Ynys y Barri i weld pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i ddatrys anawsterau parcio i denantiaid. | Gwella trefniadau parcio lleol | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda Phriffyrdd a'r Adran Barciau i adolygu cyflwr palmentydd yn yr ardal i asesu unrhyw waith sydd ei angen.<br>Sicrhau bod chwistrellu chwyn a chasglu sbwriel yn cael ei gynnwys yn ein gwaith arfaethedig. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella diogelwch cymunedol | O fewn 3 blynedd |
| **Trosedd a diogelwch** | | |
| Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdogion da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tîm Cymdogaeth neu PCSO's fel y bo'n briodol. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |

## Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| **Cymunedau gweithgar** | | |
| Mwy o deithiau cerdded, gan wahodd y PCSOs lleol - dod i adnabod ein tenantiaid a chynyddu presenoldeb yr heddlu yn yr ardal. | Gwella ymgysylltiad â thenantiaid.<br>Adeiladu ymgysylltiad cymunedol<br>Mynd i'r afael ag YGG ac ymdrin â sbwriel neu dipio anghyfreithlon. | O fewn 6 mis |
| Cwblhau archwiliad o fannau gwyrdd yn yr ardal y gellir eu datblygu i greu lleoedd cymunedol neu wella'r amgylchedd lleol. Hyn i'w gwblhau mewn ymgynghoriad â phreswylwyr lleol. Bydd yn cynnwys ystyried sut y gellir defnyddio mannau gwyrdd a thir gwastraff i gynyddu parcio. | Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Cynyddu'r parcio sydd ar gael yn yr ardal. | O fewn 12 mis |
| Recriwtio nifer o Hyrwyddwyr Cymunedol a llysgenhadon Bancio Amser yn yr ardal i gefnogi gwaith y Tîm Cymdogaeth. | Gwella ymgysylltiad â'r gymuned.<br>Gwella cysylltiadau cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Sefydlu fforwm neu grŵp tenantiaid yn yr ardal i sicrhau cyfathrebu agored â thenantiaid. | Galluogi tenantiaid i wneud sylwadau yn hawdd a chyfrannu at sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu'n lleol.<br>Gwella ymgysylltiad â'r gymuned leol. | O fewn 6 mis |
| nnal nifer o sesiynau cyngor arian a sesiynau Credyd Cynhwysol yn yr ardal i sicrhau bod gan denantiaid fynediad at gyngor priodol. | Darparu Cyngor Ariannol a gwasanaethau cymorth i denantiaethau.<br>Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy. | O fewn 6 mis |

# Sut i gysylltu â ni:

**Dros y ffôn:**

01446 700111

**Drwy e-bost:**

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

@valehomes Cartrefi'r Fro

**Yn ysgrifenedig:**

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

**Drwy'r we:**

www.bromorgannwg.gov.uk

**Yn bersonol:**

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri

8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener